**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Reoli Grantiau yng Nghymru – Adroddiad Terfynol**

Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r amser a'r ymdrech sydd wedi'u buddsoddi gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ei ymchwiliadau manwl i reoli grantiau ac mae'n gwerthfawrogi eu diddordeb parhaus yn y pwnc hwn. Rydym yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r 18 o argymhellion a gynhwysir ynddo.

**Argymhelliad 1**

*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir mewn adroddiad grantiau blynyddol:*

*– sut y cafodd grantiau unigol eu hadolygu yn ei Hadolygiad Rheoli Grantiau;*

*– pa opsiynau ariannu eraill a gafodd eu hystyried;*

*– pa sail resymegol a ddefnyddiwyd i benderfynu ar yr opsiynau ariannu mwyaf effeithiol ym mhob achos;*

*– sut y bydd yn parhau i fonitro cynnydd pob Adran o ran gweithredu argymhellion ei hadolygiad; a*

*- sut y mae'n gwerthuso pa mor effeithiol y mae cyrff allanol (pa un a ydynt yn gorff ymbarél sy'n cynrychioli sector, neu'n dosbarthu arian fel noddwr arweiniol ar brosiect) yn rheoli'r ffordd y caiff arian ei ddosbarthu i gyrff eraill.*

**Ymateb: Derbyniwyd**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y bydd adroddiad blynyddol ar reoli grantiau'n cynnig canolbwynt defnyddiol ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i'w safbwynt ar arian grant. Caiff yr adroddiad blynyddol cyntaf ei gyhoeddi erbyn Rhagfyr 2013.

Bydd gwybodaeth yn yr adroddiad am yr Adolygiad Rheoli Grantiau gan gyfeirio at y dulliau amgen o ddyrannu arian a ystyriwyd a'r rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniadau a wnaed. Lle penderfynir bod angen arian er mwyn bodloni amcan polisi, mae'n arfer safonol i swyddogion ystyried ai grant ynteu proses gaffael yw'r mecanwaith ariannu mwyaf priodol. O dan amgylchiadau priodol, mae benthyciadau trwy 'Buddsoddi i Arbed' neu Cyllid Cymru hefyd yn cael eu hystyried yn ogystal â grantiau ad-daladwy ar ffurf Cyllid Busnes Ad-daladwy.

DRAFT

Bydd yr Adroddiad Blynyddol hefyd yn darparu gwybodaeth am fonitro a rheoli grantiau ar draws Llywodraeth Cymru. Bydd yn rhoi manylion y mesurau a ddefnyddir i sicrhau bod argymhellion yr Adolygiad Rheoli Grantiau'n cael eu rhoi ar waith gan roi sicrwydd yr un pryd y cydymffurfir â safonau gofynnol arian grant.

Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn disgrifio'r safonau gofynnol sy'n sail i ddatblygu a chyflwyno rhaglenni grant Llywodraeth Cymru a bydd yn cyfeirio at sut y bydd adrannau'n gwerthuso effeithiolrwydd cyrff allanol sy'n rheoli dosbarthu cronfeydd ar ran y llywodraeth; caiff enghreifftiau o astudiaethau achos eu cynnwys lle bo modd i ddangos effeithiau hyn.

**Argymhelliad 2**

*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal deialog gyda Swyddfa Archwilio Cymru, WCVA a CLILC wrth ddatblygu canllawiau clir i awdurdodau lleol, i sicrhau eu bod yn ystyried rhychwant eang o ddulliau ariannu (yn cynnwys grantiau a chomisiynu cydweithredol) er cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.*

**Ymateb: Derbyniwyd**

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weithio mewn ffordd gydweithredol i weithredu argymhellion PAC ac i wella arferion grant yn gyffredinol. Mae wedi ymgysylltu â chydweithwyr o WAO, WCVA a CLILC ar ystod o faterion polisi ac arfer gan gynnwys datblygu canllawiau cynhwysfawr i'r awdurdodau lleol ar y gwahanol ddulliau dyrannu sy'n bodoli. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ymgysylltu â'r cyrff hyn i wella gweithgareddau rheoli grant ymhellach

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfeisio set o safonau gofynnol a chynhyrchu ystod o ganllawiau a fydd yn helpu CLILC i barhau i fwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn ac i ledaenu arferion da ar ei wefan neilltuol ar gyfer rheoli grantiau. Ymhellach, caiff y canllawiau eu datblygu i adlewyrchu mecanweithiau ariannu amgen megis y cynllun benthyca 'Buddsoddi i Arbed' ac arian neilltuol gan Cyllid Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal deialog ag aelodau Pwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ynghylch diwygiad sylfaenol o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector yng Nghymru ('Y Cod'). Bydd y Cod diwygiedig yn cynnwys adran newydd ar gomisiynu a modelau ariannu; bydd yn cynnig cyngor i swyddogion ac ymgeiswyr posibl ar ddewisiadau ariannu a'r prosesau y dylid eu dilyn i benderfynu ar y llwybr mwyaf priodol.

Mae gwahanol fodelau ariannu wedi cael eu trafod yn helaeth mewn dau gyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth a sefydlwyd i drafod diwygio'r Cod. Caiff o leiaf un cyfarfod pellach ei gynnal cyn i fanylion terfynol y Cod gael eu pennu. Mae'n arwyddocaol bod Prif Weithredwr WCVA yn aelod o'r Pwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth ac mae'r materion hyn wedi cael eu trafod hefyd mewn cyfarfodydd diweddar â WCVA. Mae'n

DRAFT

bwysig nodi, er hynny, nad yw deialog y Llywodraeth â'r Trydydd Sector am y pwnc hwn wedi bod yn gyfyngedig i WCVA, gyda sesiynau ar reoli grantiau a rôl y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw gyrff y trydydd sector sydd â diddordeb.

Cafodd diwygiadau i'r Cod a hybu dealltwriaeth o wahanol fodelau ariannu eu tanlinellu yn yr ymgynghoriad sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd ar ei pherthynas â'r Trydydd Sector. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 8 Awst. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn cynnwys cynigion i gryfhau Compactau Lleol rhwng y Trydydd Sector ac awdurdodau lleol, ac mae'n debygol y bydd gwella canllawiau a monitro'n rhan bwysig o hyn. Bydd y canllawiau hynny'n cynnig cyfle i dynnu sylw at y Cod diwygiedig fel model o arferion da y dylai'r awdurdodau lleol a phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus ystyried ei fabwysiadu at eu defnydd eu hunain.

**Argymhelliad 3**

*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n rhagweithiol i ganfod a yw'r Cod Ymarfer ar ariannu'r Trydydd Sector wedi cael ei dorri, a'i bod yn nodi achosion o'r fath yn ei hadroddiad blynyddol ar reoli grantiau. Rydym yn disgwyl y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hadroddiad blynyddol cyntaf o'r fath erbyn mis Rhagfyr 2013 fan hwyraf.*

**Ymateb: Derbyniwyd**

Mae ymgynghoriad presennol Llywodraeth Cymru ar ei pherthynas â'r Trydydd Sector yn cynnwys cynigion i gryfhau'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector. Yn benodol mae'r ddogfen ymgynghori yn datgan:

"7.10 ..y bydd yr agweddau ar y Cod sy'n ymwneud â monitro a chydymffurfiaeth yn cael eu diweddaru a'u dangos yn glir er mwyn sicrhau ei fod yn effeithiol.

7.11. Rydym yn glir iawn, yn benodol, y bydd y pwyslais ar gydymffurfio â'r Cod Ymarfer yn ystyriaeth allweddol wrth ei ddiwygio, yn ogystal â monitro cydymffurfiaeth â'r Cod yn y dyfodol.

Yn unol â hynny, mae trafodaethau â'r Pwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth y cyfeirir atynt yn yr ymateb i argymhelliad 2, wedi ystyried peri bod monitro rhagweithiol ar gydymffurfiaeth â'r Cod yn egwyddor sylfaenol. Tîm Trydydd Sector Llywodraeth Cymru fydd yn cyflawni'r swyddogaeth hon a bydd yn golygu ymgysylltu'n uniongyrchol â phob adran ariannu grantiau i ddarganfod a yw pob un wedi cydymffurfio â'r Cod, a hynny trwy gasglu gwybodaeth fanwl. Bydd hap-samplu'n digwydd hefyd yn achos derbynwyr grant er mwyn dilysu'r data hyn; caiff deg y cant o'r rhyw 900 o gyrff y trydydd sector a ariennir bob blwyddyn eu samplu. Caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio hefyd i lywio cynnwys yr adroddiad blynyddol (a gaiff ei ystyried hefyd gan y Pwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth). Dylai'r safiad rhagweithiol hwn olygu y bydd

DRAFT

nodi achosion lle torrwyd y Cod yn dibynnu'n llawer llai ar annog derbynwyr grant i roi gwybod am bryderon neu i gwyno'n ffurfiol. Caiff ystyriaeth bellach ei rhoi hefyd i fecanweithiau eraill ar gyfer profi cydymffurfiaeth â'r Cod, megis gwneud darpariaeth newydd i dderbynwyr grant godi pryderon yn ddienw. Bydd y Cod diwygiedig yn cynnwys adran newydd sy'n ymdrin â'r broses ar gyfer rhoi gwybod am ddiffyg cydymffurfiaeth gan gynnwys unrhyw fecanweithiau newydd a nodir yn yr ymgynghoriad. Caiff y Cod diwygiedig ei gyhoeddi erbyn Rhagfyr 2013

**Argymhelliad 4**

*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau ei bod yn cynnwys unrhyw broblemau yn gysylltiedig â'i thempled talu ymlaen llaw yn ei hadroddiad blynyddol ar grantiau a'i bod hefyd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth amdanynt.*

**Ymateb: Derbyniwyd**

Mae'r templed talu ymlaen llaw'n cael ei ddefnyddio ar draws Llywodraeth Cymru ac mae'r trydydd sector heb roi gwybod am unrhyw faterion ynghylch ei ddefnyddio. Caiff y templed talu ymlaen llaw hwn ei adolygu'r rheolaidd gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n addas at ei ddiben. Rhoddir gwybod am unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â'r templed yn yr adroddiad blynyddol a hefyd i'r Pwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth. Trafodir a chytunir ar unrhyw newidiadau i'r templed â'r Pwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth cyn iddo gael ei roi ar waith.

**Argymhelliad 5**

*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu i gynyddu a rhoi cyhoeddusrwydd i rôl y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau fel un pwynt cyswllt lle ceir cyngor ar geisiadau am arian. Rydym yn disgwyl i hyn gynnwys datblygu'i gwefan gyhoeddus.*

**Ymateb: Derbyniwyd**

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i hybu ac i roi cyhoeddusrwydd i rôl y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn fewnol ac yn allanol.

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau eisoes wedi codi ei phroffil yn sylweddol yn fewnol ac erbyn hyn y ganolfan yw'r cyswllt cyntaf ar gyfer pob ymholiad am grantiau. Mae'r gwelliant hwn yn y berthynas ag adrannau wedi deillio o ystod o fesurau gan gynnwys defnyddio'r fewnrwyd i gyfleu gwybodaeth bwysig am grantiau ac, yn allweddol, ddefnyddio cyswllt personol â chydweithwyr ym myd busnes fel arf effeithiol i ddatblygu perthynas. Mae bellach yn arfer safonol i'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau ymgysylltu â swyddogion grantiau ac uwch swyddogion i rannu cymaint o wybodaeth â phosibl o fewn ac ar draws adrannau.

DRAFT

Bydd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn mynd ati i ymgysylltu â derbynwyr arian i roi cyhoeddusrwydd i'w rôl fel yr unig gyswllt am gyngor ar geisiadau am arian. Bydd yr ymgysylltu mwy effeithiol hwn yn cynnwys diwygio a gwella'r tudalennau ar wefan gyhoeddus y Llywodraeth ar arian grant; mae tudalennau'r wefan bresennol i'w cael yn http://wales.gov.uk/funding/fundgrantareas/grantscentreofexcellence/;jsessionid=C920079A06C84E4F7D40AD5BE594EEBD?lang=en. Mae'r gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd Medi 2013.

Caiff diweddariad ar y wefan allanol ac ymgysylltu â derbynwyr arian ei gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol.

**Argymhelliad 6**

*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi amserlen ar gyfer cyflwyno system TG ganolog i reoli grantiau, ac ar gyfer rhoi system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid ar waith.*

**Ymateb: Derbyniwyd**

Mae Llywodraeth Cymru yn pennu manylion terfynol gwerthusiad o'r dewisiadau ar gyfer cyflwyno System TG ganolog ar gyfer rheoli grantiau a fydd yn helpu i fodloni gofynion busnes a datrys pryderon a godir gan WAO a PAC. Mae'r system TG yn fuddsoddiad sylweddol i Lywodraeth Cymru a bydd yn rhoi sylfaen gadarn i ni am nifer o flynyddoedd. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod oedi wedi digwydd o ran rhoi'r system hon ar waith. Er hynny, mae penderfynu pa system i'w defnyddio yn allweddol i sicrhau y deuir o hyd i'r system orau. Mae pedwar dewis gwahanol o dan ystyriaeth ar hyn o bryd. Mae angen gwerthusiad trylwyr er mwyn sicrhau y bydd y system a ddewisir yn diwallu anghenion a nodir trwy ymgynghori helaeth â chydweithwyr grantiau. Caiff y broses benderfynu ei dilysu trwy broses Porth OGC.

Rhaid i'r system TG ddarparu un platfform am bob un o grantiau'r Llywodraeth gan gynnwys y gallu i lunio a rhannu gwybodaeth gorfforaethol briodol. Cynigir y bydd y system yn ymgorffori dull gweithio i Reoli Cyswllt â Chwsmeriaid er mwyn gallu canolbwyntio ar y cwsmer. Penderfynir pa system grantiau i'w defnyddio erbyn diwedd mis Hydref 2013. Bydd yr amserlen ar gyfer mynd ati i ddatblygu a phrofi'r system yn dibynnu, i raddau, ar yr opsiwn a ddewisir. Er hynny, yn ôl yr amserlen amlinellol bresennol, caiff y cam hwn ei gwblhau erbyn Mehefin 2014 a dechreuir arbrofi'r system newydd o fis Hydref 2014. Rhagwelir y bydd y system newydd "yn fyw" tua mis Mawrth 2015.

Yn y cyfamser mae gwelliannau i'r system TG bresennol ar gyfer grantiau'n mynd rhagddynt a bydd gweithredu hyfforddiant yn hybu dulliau mwy cywir o

DRAFT

gofnodi data ac adrodd yn ôl; bydd y mesurau hyn o gymorth o ran rhannu gwybodaeth allweddol am dderbynwyr grant.

.

**Argymhelliad 7**

*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, yn ei hadroddiad blynyddol ar reoli grantiau, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei chynnydd o ran:*

*- rhoi'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, ein hadroddiad interim ac adroddiad Rheoli Grantiau 2011 Swyddfa Archwilio Cymru ar waith.*

*- newid ei ffordd strategol o ymdrin â rheoli grantiau, i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n gweithredu fel un corff yn ei pherthynas â chyrff allanol sy'n cael arian cyhoeddus.*

**Ymateb: Derbyniwyd**

Cynhwysir y newyddion diweddaraf am gynnydd y Llywodraeth wrth ymateb i'r argymhellion a gynhwysir yn y tri adroddiad uchod yn yr adroddiad blynyddol.

Mecanwaith allweddol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu dull cyson o reoli grantiau yw'r Prosiect Rheoli Grantiau. Cydnabyddir, er hynny, y bydd y newid diwylliannol y mae ei angen i sicrhau rhagoriaeth o ran arferion grant ar draws y Llywodraeth yn debygol o gymryd nifer o flynyddoedd. Ceir tystiolaeth o newid o'r fath gan fod dros 90% o gynigion grant sy'n defnyddio llythyr dyfarnu bellach yn cael eu cyhoeddi o dan lythyr dyfarnu safonol. Mae hyn yn newid o bwys yn y ffordd y mae'r Llywodraeth yn datblygu cytundebau ariannu. Bydd y 10% arall o grantiau sy'n defnyddio llythyron heb fod yn safonol yn dechrau defnyddio'r llythyr dyfarnu safonol ar ddiwedd eu cytundeb ariannu presennol.

Mae newidiadau i'r ffordd y mae gwybodaeth am dderbynwyr arian yn cael ei rhannu yn cael eu rhoi ar waith ac mae hyn yn gam cadarnhaol pellach tuag at gydweithio ar draws adrannau. Mae hyn wedi golygu datblygu cronfa ganolog o wybodaeth gorfforaethol, sydd bellach ar waith, a gaiff ei disodli gan system fwy cynhwysfawr a fydd yn galluogi rheolwyr grantiau i gysylltu gwybodaeth â chorff yn uniongyrchol. Bydd y system fwy cynhwysfawr yn galluogi rheolwyr grant i gofnodi pryderon a phenderfyniadau, megis y rhesymeg y tu ôl i wrthod cais ac fe gaiff ei sefydlu erbyn Medi 2013. Bydd cydweithio fel hyn yn helpu i atgyfnerthu'r newid diwylliannol y mae ei angen er mwyn i adrannau weithredu'n fwy corfforaethol wrth reoli a gweinyddu grantiau.

Caiff cynnydd o ran hwyluso newid diwylliannol ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol ar reoli grantiau.

**Argymhelliad 8**

*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i gwblhau ei deialog â'r Gronfa Loteri Fawr, y Comisiwn Elusennau, WCVA a chyrff priodol eraill i ddatblygu, cynhyrchu a gweithredu telerau cydweithio ar gyfer cyswllt rhwng gwahanol gyrff sy'n darparu grantiau sy'n arian cyhoeddus.*

**Ymateb: Derbyniwyd**

Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan mewn grŵp llywodraethu da a sefydlwyd gan y Gronfa Loteri Fawr ar y cyd â WCVA, y Comisiwn Elusennol a nifer o gyrff ambarél y Trydydd Sector. Fel y cytunwyd â'r Loteri Fawr a WCVA, bydd Llywodraeth Cymru'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros y grŵp. Bydd y grŵp hwn yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu arferion da ac i drafod rheoli grantiau. Bydd y grŵp yn datblygu, yn cynhyrchu ac yn gweithredu telerau ymgysylltu ar gyfer cyswllt rhwng gwahanol ddarparwyr grantiau a ariennir yn gyhoeddus. Bydd y gwaith hwn yn dechrau yn syth, gyda'r nod o'i gwblhau erbyn Ebrill 2014.

Mae'r grŵp hwn hefyd yn rhannu gwybodaeth am ymgeiswyr posibl ar ymgeiswyr posibl neu dderbynwyr arian sy'n cael arian o nifer o ffynonellau.

**Argymhelliad 9**

*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, law yn llaw â datblygu system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid, yn datblygu fframwaith clir a chymesur i benderfynu ar y risg sydd ymhlyg mewn darparu arian cyhoeddus i gyrff allanol unigol.*

**Ymateb: Derbyniwyd**

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu safonau gofynnol ar gyfer arian grant. Mae'r safonau hyn yn ddull y cytunwyd arno o ran rheoli grantiau ac maent yn rhoi sylw i gyfraith berthnasol, polisi, ac arferion da. O ran ceisiadau am grant, mae'r safonau a'r canllawiau cysylltiedig yn ei gwneud yn ofynnol i asesiad risg cymesur gael ei gynnal ar gyfer pob corff allanol sy'n cael arian cyhoeddus.

Rhaid i gymesuredd a materoldeb gael eu hystyried bob amser wrth asesu risg. Mae manylion canllawiau'n cael eu pennu a bydd y Prosiect Rheoli Grantiau'n darparu hyfforddiant asesu risg i swyddogion grant er mwyn sicrhau bod prosesau'n cael eu cymhwyso a'u bod yn gyson ac yn briodol ym mhob achos.

**Argymhelliad 10**

*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu dull o ddwysáu ei threfniadau monitro, mewn ymateb i bryderon penodol yn ymwneud ag*

DRAFT

*afreoleidd-dra ariannol neu faterion llywodraethu, a hynny'n cynnwys pan roddir ‗mantais yr amheuaeth' i sefydliad.*

**Ymateb: Derbyniwyd**

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu canllawiau yn ymdrin yn benodol â'r angen i gadw cofnodion mewn ffordd gywir a phriodol ar y cyd â phrosesau monitro sy'n gweddu i'r sefyllfa sydd wedi peri pryder. Bydd y broses diwydrwydd dyladwy newydd sy'n cael ei rhoi ar waith hefyd yn hwyluso dulliau effeithlon o rannu gwybodaeth am gyrff allanol. Mae'r broses wedi datblygu cronfa ganolog o wybodaeth gorfforaethol, sydd bellach ar waith, a gaiff ei disodli gan system fwy cynhwysfawr a fydd yn galluogi rheolwyr grantiau i gysylltu gwybodaeth â chorff yn uniongyrchol. Caiff y system fwy cynhwysfawr ei sefydlu erbyn Medi 2013.

O dan unrhyw amgylchiadau lle codir pryderon ynghylch llywodraethu corfforaethol yn achos corff a ariennir, mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn bwynt cyswllt canolog i ddarparu cyngor a chanllawiau neu i gyfeirio'r ymholiad at yr adran briodol. Mae proses ddatrys fewnol wedi'i rhoi ar waith hefyd i sicrhau bod materion a phryderon yn cael eu cyfleu a'u datrys yn briodol.

Os darperir pryderon am gorff neu unigolyn a allai effeithio ar gyrff allanol eraill sy'n darparu arian grant, caiff yr wybodaeth ei rhannu â chyrff partner perthnasol, ee WCVA, CLILC. Bydd y broses anffurfiol bresennol hon yn sylfaen i ddatblygu a chytuno ar y telerau ymgysylltu ffurfiol a adlewyrchir yn argymhelliad 8. Er hynny, llwyddwyd i ddefnyddio'r broses hon eisoes i rannu gwybodaeth yn fewnol ac yn allanol.

Mae system o hapwiriadau wedi'i rhoi ar waith i weld i ba raddau y mae adrannau'n cydymffurfio â chanllawiau a gweithdrefnau. Mae unrhyw bryderon a nodir trwy'r broses yn cael eu prosesu trwy'r broses ddatrys fewnol.

**Argymhelliad 11**

*Rydym yn argymell, fel amod wrth ddyfarnu grant, fod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff sy'n cael grant roi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau o bwys ymysg ei ymddiriedolwyr (er enghraifft, fod Cadeirydd neu draean neu fwy o'r ymddiriedolwyr wedi ymddiswyddo), am fethiant arwyddocaol i gynnal cyfarfodydd sy'n ofynnol yn ôl y cyfansoddiad, neu fod archwilwyr allanol wedi ymddiswyddo, gan roi eglurhad digonol i egluro'r cyfryw newidiadau.*

**Ymateb: Derbyniwyd**

DRAFT

Mae templed y llythyr dyfarnu safonol wedi'i ddiwygio i gynnwys y gofyniad i gyrff a ariennir hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau o bwys yn eu hymddiriedolwyr (er enghraifft ymddiswyddiad Cadeirydd neu un rhan o dair neu fwy o'r ymddiriedolwyr), methiant sylweddol o ran cynnal cyfarfodydd sy'n ofynnol o dan y cyfansoddiad, neu ymddiswyddiad archwilwyr allanol. Bydd yr ychwanegiadau hyn i'r 'Digwyddiadau Hysbysu' yn y llythyr dyfarnu'n rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru ymchwilio i'r mater ac, os yw'n briodol, y gallu i derfynu neu dynnu arian grant yn ôl mewn ffordd amserol.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu canllawiau erbyn Medi 2013 er mwyn i swyddogion ddeall pa gamau i'w cymryd pan fydd hysbysiad o'r fath yn digwydd. Bydd angen gwirio'r canllawiau o bryd i'w gilydd mor aml ag sy'n gymesur â lefel y cyllid a'r risg a aseswyd er mwyn dangos bod corff a ariennir wedi cydymffurfio â darpariaethau llythyr dyfarnu, yn enwedig mewn perthynas â'r digwyddiadau hysbysu. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod cyrff allanol yn cael eu trin yn gyson ar draws Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 12**

*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth gymesur i oblygiadau arwyddion rhybuddio posibl yng nghyswllt rheoli grantiau - megis newidiadau o bwys ymysg ymddiriedolwyr sefydliad, methiant i gynnal cyfarfodydd sy'n ofynnol yn ôl y cyfansoddiad, neu fod archwilwyr allanol wedi ymddiswyddo - gan gasglu gwybodaeth bellach yn ôl y gofyn (er enghraifft, defnyddio cyfweliadau ymadael).*

**Ymateb: Derbyniwyd**

Caiff canllawiau eu diwygio i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth swyddogion o'r arwyddion rhybuddio a allai ddangos bod problemau gyda grantiau unigol. Bydd y canllawiau'n rhoi manylion y prosesau y dylid eu dilyn ac effaith bosibl y penderfyniadau hynny. Bydd yn ofynnol i reolwyr grantiau gofnodi eu bod wedi ystyried yr amgylchiadau mewn perthynas â digwyddiad hysbysu a'u bod wedi ymateb iddo yn briodol ac yn gymesur ac wedi cyfathrebu'n effeithiol.

Bydd y canllawiau'n cyfeirio rheolwyr grantiau at y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau i gael cyngor a chanllawiau pellach yn ôl yr angen.

**Argymhelliad 13**

*Rydym yn argymell, fel amod wrth ddyfarnu grant, fod Llywodraeth Cymru yn rhoi gofyniad ar bob corff sy'n cael grant i hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw achosion pan gaiff y gofynion yn nogfen lywodraethu'r sefydliad ynglŷn â chyfarfodydd ymddiriedolwyr eu torri, gan roi esboniad digonol o hynny.*

DRAFT

**Ymateb: Derbyniwyd**

Gweler yr ymateb i argymhelliad 11.

**Argymhelliad 14**

*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys manylion am atebolrwydd a chyfrifoldeb cymesur ymddiriedolwyr yn y gofynion ynghlwm wrth gyllid allanol (yn cynnwys arian grant). Rydym yn disgwyl i hyn gynnwys manylion ynglŷn â:*

*– yr amgylchiadau penodol pryd y dylai pryder am lywodraethiant sefydliad gael ei ddwyn i sylw Llywodraeth Cymru;*

*– y dull priodol er mwyn mynegi pryder am lywodraethiant sefydliad wrth Lywodraeth Cymru.*

**Ymateb: Derbyniwyd**

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd mesurau a anelir at sicrhau bod yr ymddiriedolwyr yn cael gwybod bod arian grant wedi'i roi i gorff. Mae hyn wedi cynnwys y gofyniad am ddau lofnod awdurdodedig ar y llythyr dyfarnu a'r angen i gorff gadarnhau bod y llofnodion awdurdodedig wedi cael eu hawdurdodi gan y bwrdd neu'r ymddiriedolwyr i dderbyn y grant yn ffurfiol. Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried a oes angen mesurau pellach i godi proffil yr arian grant ar y cyd â'r grŵp llywodraethu a nodir yn argymhelliad 8.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu gwybodaeth am dempled y llythyr dyfarnu safonol i'w gynnwys yn y tudalennau ar ei gwefan gyhoeddus sy'n ymwneud ag arian grant, erbyn mis Hydref 2013 . Bydd hyn yn nodi cyfrifoldebau'r Llywodraeth a chyrff a ariennir a bydd yn cyfeirio at yr amgylchiadau a'r mecanweithiau ar gyfer codi pryderon am y ffordd y mae corff yn defnyddio arian cyhoeddus a'i drefniadau llywodraethu. Bydd Lywodraeth Cymru'n cael deialog hefyd â'r Comisiwn Elusennau ynghylch y canllawiau y maent yn eu rhoi i ymddiriedolwyr a sut y gellir cysylltu hyn â gwefan Llywodraeth Cymru.

Bydd canllawiau Llywodraeth Cymru'n disgrifio'r sefyllfaoedd a fyddai'n arwain at roi hysbysiad ffurfiol i'r Llywodraeth. Bydd yn pwysleisio na fydd camau o'r fath o reidrwydd yn effeithio'n andwyol ar y trefniant grant â'r corff a ariennir. Bydd sefyllfaoedd lle mae'r Llywodraeth yn darganfod y dylai corff a ariennir fod wedi ei hysbysu am ddigwyddiad ond wedi methu â gwneud hynny, yn destun ymchwiliad mwy trylwyr o ganlyniad.

**Argymhelliad 15**

DRAFT

*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod - er bod manteision yn gallu deillio o ddefnyddio cyrff ymbarél - y bydd unrhyw agwedd o reolaeth wael yn unrhyw un ohonynt yn arwain at fwy o risg ac ôl-effeithiau difrifol posibl i gyrff eraill sy'n dibynnu ar gefnogaeth (ariannol neu fel arall) gan y cyrff hyn. Pan fydd yn defnyddio corff ymbarél, dylai Llywodraeth Cymru ddatgan y rhesymau am ei ddefnyddio yn glir ac yn gyhoeddus.*

**Ymateb: Derbyniwyd**

Mae'n ddefnyddiol gwahaniaethu rhwng cyrff 'ambarél' sy'n cefnogi rhannau penodol o'r Trydydd Sector (e.e. grwpiau cydraddoldeb neu gyrff celfyddydau) a chyrff 'seilwaith' sy'n darparu cymorth mwy generig i'r sector. Cydnabyddir y gwahaniaeth hwn gan yr adroddiad sy'n cydnabod y gallai cyrff canolradd megis "cynghorau gweithredu gwirfoddol" fod yn fwy effeithiol na chyrff ambarél "megis AWEMA" (para. 195). Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru'n darparu arian craidd i gyrff seilwaith ledled Cymru, yn bennaf WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CGS) a Chanolfannau Gwirfoddoli. Mae'r cyrff hyn yn cydweithio'n agos ac yn darparu ystod o wasanaethau a chymorth y cytunir arnynt y gall pawb sy'n gwirfoddoli gyda chorff gwirfoddol gael mynediad atynt. Mae rôl y seilwaith hwn a'r ffordd y mae'n cael ei ariannu'n destun ymgynghori ar hyn o bryd, fel y cyfeirir ato yn Argymhelliad 3.

Mae cyrff ambarél yn darparu gwybodaeth a chyngor arbenigol ynghylch eu priod feysydd arbenigol. Mae llawer o gyrff ambarél yn gweithio'n agos â'r cyrff seilwaith ac fe'u cynrychiolir hefyd mewn strwythurau megis Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno mai CGS yw'r cyrff mwyaf priodol i gyrff lleol droi atynt mewn llawer o achosion, yn enwedig lle mae eu hanghenion yn ymwneud â materion generig megis llywodraethu da, codi arian a chymorth i wirfoddolwyr.

Yn draddodiadol mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio cyrff ambarél i ddosbarthu arian i nifer mawr o gyrff llai yn y trydydd sector gan fod hyn yn lleihau ei chostau gweinyddu. Er hynny, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod hyn yn gallu cynyddu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r arian, er enghraifft, gostyngiad yn lefel y diwydrwydd dyladwy a wneir gan y corff ambarél. Lle y bydd y Llywodraeth yn defnyddio corff ambarél yn y dyfodol bydd y rhesymau dros ei ddefnyddio'n cael eu dogfennu'n glir.

**Argymhelliad 16**

*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso effeithiolrwydd yr hyfforddiant y mae wedi'i gyflwyno ar gyfer Rheolwyr Grantiau.*

**Ymateb: Derbyniwyd**

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd camau i werthuso'r hyfforddiant sydd wedi'i ddarparu ers Rhagfyr 2012. Hyfforddiant cyfrifiadurol yw'r

DRAFT

hyfforddiant sydd wedi'i ddarparu hyd yn hyn ac mae wedi bod yn orfodol i swyddogion sy'n cyflawni'r rolau perthnasol:

- 'Trosolwg o Grantiau i Uwch Swyddogion Perthnasol'
- 'e-Grantiau i Ardystwyr ac Awdurdodwyr' (h.y. i staff sy'n bwydo gwybodaeth am hawliadau grant ac sy'n cymeradwyo taliadau ar y system daliadau), a
- 'Grantiau i Reolwyr Grantiau' (cyfanswm o 3 modiwl).

Mae mecanweithiau adborth ffurfiol ac ymholiadau/sylwadau i'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi cael eu defnyddio i lywio'r adolygiad parhaus o'r modiwlau hyn. Mae'n glir, i raddau helaeth, fod yr hyfforddiant wedi cael ei groesawu gan swyddogion grant. Cafodd holiadur i randdeiliaid ei ddosbarthu yn ddiweddar i helpu i sicrhau adborth pellach ar yr hyfforddiant a'r mecanweithiau gwella eraill sydd wedi cael eu rhoi ar waith ac sy'n cael eu rhoi ar waith yn awr. Mae system o hapwiriadau wedi'i chyflwyno i helpu i roi sicrwydd o ran gwelliannau wrth reoli grantiau a gweinyddu o ganlyniad i'r gwahanol fesurau gwella. Caiff canfyddiadau'r holiadur i randdeiliaid a'r hapwiriadau eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ar reoli grantiau.

Cynlluniwyd hyfforddiant personol pellach ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf i atodi ac atgyfnerthu dysgu a gynigir gan y dull cyfrifiadurol. Caiff effeithiolrwydd yr hyfforddiant hwn ei werthuso'n rheolaidd a chyfeiriadau yn yr adroddiad blynyddol ar reoli grantiau.

**Argymhelliad 17**

*Rydym yn argymell, fel system arfer da, y dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth ddifrifol i ddatgelu naratif adroddiad i bartïon allanol, fel bod modd ei wirio o ran cywirdeb ffeithiol, pe bai gofyn iddi ymgymryd ag adolygiad tebyg.*

**Ymateb: Derbyniwyd**

At ddibenion sicrhau cywirdeb ffeithiol, cyflawnder ac er mwyn sicrhau bod Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn cyflwyno adroddiadau'n deg, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i rannu naratif adroddiadau drafft ynghylch cyrff i'w reolwyr cyn eu cwblhau.

**Argymhelliad 18**

*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mynegi'n glir ac yn benodol ei rhesymeg am roi terfyn - neu gwtogi'n sylweddol - ar yr arian y mae'n ei roi i unrhyw sefydliad sy'n cael grant, cyn i arian y sefydliad hwnnw gael ei derfynu (neu ei gwtogi'n sylweddol). Dim ond i'r sefydliad dan sylw y byddem yn disgwyl i'r rhesymeg hon gael ei darparu fel arfer.*

DRAFT

**Ymateb:** **Derbyniwyd**

Pan fo rhaid i Lywodraeth Cymru derfynu neu leihau arian grant yn sylweddol, mae'n ymrwymo i roi hysbysiad priodol i'r corff o dan sylw am y newid ac i nodi'n glir y rhesymau y tu ôl iddo. Yn achos cyrff y trydydd sector, bydd y cyfnod hysbysu yn gyfnod o dri mis o leiaf yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector, oni bai y rhoddir gwybod am amgylchiadau eithriadol yn unol â'r Cod. Mae'r cyfnod hysbysu ar gyfer cyrff eraill yn amrywio yn dibynnu ar y math o gorff a'r amgylchiadau y tu ôl i'r hysbysiad.

DRAFT